MENTERA

mentera.cymru

# Cynllun Lleihau Carbon Mentera 2025

Lluniwyd y Cynllun Lleihau Carbon hwn yn unol â'r Safon Dechnegol ar gyfer Cwblhau Cynlluniau Lleihau Carbon ac yn unol â Nodyn Polisi Caffael Swyddfa'r Cabinet (PPN) 06/21. Y cyfnod adrodd ar gyfer y rhifyn hwn o'r cynllun yw 1 Ionawr 2025 i 31 Rhagfyr 2025.

## Cyd-destun Polisi

Mae polisi hinsawdd y DU wedi'i fframio gan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008, a ddiwygiwyd yn 2019 i sefydlu ymrwymiad cyfreithiol rwymol i'r DU gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050. Mae polisi caffael Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr sy'n bidio am gontractau mawr yn y sector cyhoeddus gyhoeddi Cynlluniau Lleihau Carbon sy'n dangos ymrwymiad credadwy i sero net.

Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer datblygu cynaliadwy a chyllidebu carbon. Mae arferion rheoli amgylcheddol Mentera yn cyd-fynd â'r amcanion polisi ehangach hyn ac yn cyfrannu at liniaru'r hinsawdd ledled Cymru, gan gynnwys targed Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2030.

## Gwaelodlin Ôl Troed Allyriadau

Blwyddyn waelodlin: 2019.
Cyfanswm yr allyriadau sylfaenol: 125.9 tCO2e.

## Adrodd ar Allyriadau Cyfredol (Blwyddyn Galendr 2025)

| | |
|---|---|
| Cwmpas 1 – Nwy Naturiol | 13.72 tCO2e |
| Cwmpas 2 – Trydan (gan gynnwys defnydd amcangyfrifedig - defnydd o eiddo) | 10.40 tCO2e |
| Cwmpas 3 – Teithio Busnes (nid yw teithio i'r gwaith wedi'i gynnwys oherwydd cyfyngiadau data) | 95.96 tCO2e |
| Cwmpas 3 – Dŵr | 0.06 tCO2e |
| Cyfanswm yr Allyriadau | 120.39 tCO2e |

Cyfrifwyd bod cyfanswm yr allyriadau ar gyfer blwyddyn adrodd 2025 yn 120.39 tCO2e. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o tua 4.4% o'i gymharu ag allyriadau'r flwyddyn waelodlin o 125.9 tCO2e. Rhwng 2025 a'r flwyddyn waelodlin, bu cynnydd o 30.2% yn nifer y gweithwyr (o 126 o weithwyr yn 2019 i 164 yn 2025).

## Trywydd Allyriadau a Thargedau




## Dylanwadau Allweddol ar Newidiadau o Flwyddyn i Flwyddyn

Cyfanswm yr allyriadau ar gyfer cyfnod adrodd 2025 yw 120.39 t$CO_2$e, sy'n cynrychioli cynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn a adroddwyd yn flaenorol. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu gwelliannau yn y cyflawnder o ran adrodd ar allyriadau yn bennaf, yn hytrach na newid sylweddol mewn gweithgarwch gweithredol. Yn y cyfnod adrodd hwn, cynhwyswyd amcangyfrifon o allyriadau trydan ar gyfer sawl safle lle nad oedd data ynni penodol i denantiaid ar gael o'r blaen, sef Caerfyrddin (Yr Egin), Llanrwst (Glasdir), ac M-SParc (Parc Gwyddoniaeth Menai). Cafwyd yr amcangyfrifon hyn gan ddefnyddio dulliau dyrannu arwynebedd llawr a dulliau dwyster ynni swyddfa meincnod, gan ychwanegu tua 9.22 t$CO_2$e o allyriadau Cwmpas 2 nad oeddent wedi'u cynnwys mewn adroddiadau cynharach. Mae cynnwys yr amcangyfrifon hyn yn darparu cynrychiolaeth fwy cyflawn o ôl troed gweithredol Mentera ac yn alinio'r dull adrodd â gofynion tryloywder PPN 06/21 a chanllawiau Protocol Nwyon Tŷ Gwydr.

## Cyfyngiadau Data a Dulliau Amcangyfrif

Mae rhai lleoliadau swyddfa Mentera wedi'u lleoli o fewn adeiladau aml-denant lle mae'r defnydd o ynni yn cael ei fesur ar lefel yr adeilad cyfan. Yn y sefyllfaoedd hyn, nid oes data defnydd ynni penodol i denantiaid ar gael. Er mwyn cynnal adrodd cyflawn ar Gwmpas 1 a Chwmpas 2, amcangyfrifwyd allyriadau sy'n gysylltiedig â'r safleoedd hyn gan ddefnyddio dulliau dyrannu arwynebedd llawr a meincnodi dwyster ynni swyddfa sy'n gyson â'r Protocol Nwyon Tŷ Gwydr.

Addasiad solar ffotofoltaidd: Ar gyfer safle Uned 3 Aberystwyth, didynnwyd y cynhyrchiad solar ffotofoltaidd a gofnodwyd (8,178 kWh) o ddefnydd trydan gros y safle i gyfrifo trydan net a fewnforiwyd, gydag allyriadau Cwmpas 2 wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio ffactor trydan grid y DU (0.177 $kgCO_2e/kWh$); cafodd y didyniad ei gapio ar ddefnydd trydan mesuredig y safle i atal mewnforion negyddol.

## Mentrau Lleihau Carbon wedi'u Cwblhau

- Gosod ac optimeiddio cynhyrchu ffotofoltaidd mewn swyddfeydd dethol.
- Amnewid goleuadau fflwroleuol gyda goleuadau LED mewn sawl safle.
- Amnewid boeleri a gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn swyddfa Caerdydd.
- Polisïau gweithio hybrid yn lleihau'r galw am deithio a chymudo yn y swyddfa.
- Mwy o ddefnydd o offer cydweithio digidol a fideo-gynadledda.
- Monitro perfformiad amgylcheddol drwy'r System Rheoli Amgylcheddol.

## Mentrau Lleihau Carbon Cynlluniedig

- Gwella casglu data amgylcheddol o safleoedd â mesuryddion a rennir.
- Casglu gwybodaeth am gerbydau staff i fireinio cyfrifiadau allyriadau teithio’r busnes.
- Asesu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cynhyrchu solar ffotofoltaidd.
- Parhau i drosglwyddo i oleuadau LED ac offer effeithlon ar draws swyddfeydd.
- Ehangu mentrau ymwybyddiaeth amgylcheddol a rhaglenni ymgysylltu staff.
- Gwerthuso'r posibilrwydd o gynnwys allyriadau cymudo yn y dyfodol o fewn gwaith adrodd Cwmpas 3 lle mae data'n caniatáu.
- Archwilio cyfleoedd gwiriadwy ar gyfer gwrthbwyso carbon ar gyfer allyriadau gweddilliol.

## Targedau Lleihau Allyriadau

Nod Mentera yw lleihau allyriadau gweithredol i tua 50 $tCO_2e$ erbyn 2029 fel rhan o'n llwybr tuag at gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050.

## Datganiad a Chymeradwyaeth

Mae'r Cynllun Lleihau Carbon hwn wedi'i gwblhau yn unol â Nodyn Polisi Caffael (PPN) 06/21 a'r canllawiau a'r safon adrodd gysylltiedig ar gyfer Cynlluniau Lleihau Carbon.

Mae allyriadau wedi cael eu hadrodd a'u cofnodi yn unol â'r safon adrodd gyhoeddedig ar gyfer Cynlluniau Lleihau Carbon a Safon Cyfrifyddu ac Adrodd Corfforaethol y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr (GHG). Mae'r cynllun yn defnyddio Ffactorau Trosi Nwyon Tŷ Gwydr priodol Llywodraeth y DU ar gyfer Adrodd ar Gwmnïau.

Mae allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 wedi'u hadrodd yn unol â gofynion Adrodd Ynni a Charbon Syml (SECR), ac mae'r is-set ofynnol o allyriadau Cwmpas 3 wedi'u hadrodd yn unol â'r safon adrodd gyhoeddedig ar gyfer Cynlluniau Lleihau Carbon a'r Safon Cadwyn Gwerth Gorfforaethol (Cwmpas 3).

Mae'r sefydliad yn cadarnhau ei ymrwymiad i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr Sero Net erbyn 2050.

Bydd Mentera yn parhau i fesur, monitro a lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a byddwn yn diweddaru'r Cynllun Lleihau Carbon hwn yn flynyddol i adlewyrchu cynnydd yn erbyn ein targedau a gwelliannau o ran argaeledd data a pherfformiad amgylcheddol.

Llofnodwyd ar ran Mentera:

Enw: Llŷr Roberts

Swydd: Prif Weithredwr

Llofnod: Llŷr Roberts

Dyddiad: 26/03/2026